ARHOLIADAU 360°

Golwg fanylach ar farcio

I fyfyrwyr, mae'r arholiadau wedi gorffen, ac mae'r gwyliau haf hirddisgwyliedig wedi cyrraedd. I fyrddau arholi a'u harholwyr – athrawon, gan amlaf – mae'n amser marcio a gosod ffiniau graddau ar gyfer diwrnodau canlyniadau ym mis Awst.

Rydw i newydd sefyll fy arholiad, beth sy'n digwydd nawr?

Ar ddiwedd yr arholiad, bydd y goruchwylwyr yn pacio'r papurau'n ddiogel ac yn eu hanfon at y bwrdd arholi, naill ai'n uniongyrchol at arholwr neu at ganolfan sganio.

Ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar sgrin, caiff y llyfrynnau ateb - gelwir y rhain yn 'sgriptiau' - eu hanfon at safle sganio diogel. Unwaith iddyn nhw gael eu sganio, caiff copïau digidol eu hanfon drwy system ddiogel ar-lein at arholwyr i gael eu marcio.

Ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar bapur, caiff y sgriptiau eu hanfon yn uniongyrchol o'r ysgol at yr arholwyr unigol.

Pwy sy'n marcio fy ngwaith i?

Mae pob un arholwr sy'n marcio i CBAC yn athro cymwys sydd ag o leiaf flwyddyn o brofiad dysgu. Bob blwyddyn, caiff yr holl arholwyr eu hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r cynllun marcio'n gywir mewn cynadleddau hyfforddi wyneb yn wyneb.

Caiff y cynllun marcio ei ysgrifennu gan brif arholwr y corff dyfarnu. Mae'n darparu arweiniad manwl a samplau o atebion ar gyfer pob ateb yn y papur arholiad hwnnw.

Ydy pob arholwr yn rhoi'r un marciau?

Cyn y gall arholwyr ddechrau marcio, mae'n rhaid iddyn nhw farcio sampl o sgriptiau yn gyntaf, ac yna mynychu cyfarfod safoni. Caiff y cyfarfod ei arwain gan yr uwch arholwyr sydd wedi ysgrifennu'r papurau cwestiwn.

Yn y cyfarfod, mae arholwyr yn adolygu a thrafod y system farcio'n ofalus er mwyn sicrhau y gallan nhw i gyd ei defnyddio'n gyson. Er enghraifft, os caiff ateb annisgwyl ei roi i gwestiwn, byddan nhw'n cytuno sawl marc i'w roi i atebion tebyg eraill.

Drwy gydol y cyfnod marcio, caiff arholwyr eu monitro er mwyn sicrhau eu bod nhw'n marcio'n gywir ac yn gyson. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd ar gyfer marcio ar sgrin ac ar bapur fymryn yn wahanol.

continued...

Gydag arholiadau sy'n cael eu marcio ar sgrin, caiff arholwyr gwestiynau penodol i'w hateb, felly ni fydd arholwr fel arfer yn gweld holl atebion myfyriwr. Mae hefyd yn annhebygol iawn y caiff holl arholiadau un ysgol eu marcio gan un arholwr.

Gyda marcio ar sgrin, caiff gwaith arholwr ei wirio'n awtomatig. Bob hyn a hyn caiff arholwr gwestiwn i'w farcio sydd eisoes wedi cael ei farcio gan uwch arholwr. Nid yw'r arholwr yn gwybod pa gwestiynau yw'r rhain.

Os yw ei f/marciau yn wahanol i rai'r uwch arholwr, yna bydd y system yn ei stopio rhag marcio ar unwaith.

Gydag arholiadau sy'n cael eu marcio ar bapur, mae'n rhaid i arholwyr anfon detholiad ar hap o'r sgriptiau maen nhw wedi eu hanfon at uwch arholwr i gael eu gwirio. Mae'r uwch arholwr yn rhoi adborth ar farcio'r arholwr. Os nad yw arholwr yn marcio'n gywir neu'n gyson, caiff ei atal rhag marcio.

Os caiff arholwr ei atal rhag marcio (naill ai ar sgrin neu ar bapur), yna caiff ei gwestiynau/sgriptiau eu hailddyrannu i arholwr gwahanol i gael eu marcio. Caiff unrhyw gwestiynau/sgriptiau mae eisoes wedi eu marcio eu gwirio ac, os oes angen, eu hailfarcio.

CYMWYSTERAU CYMRU QUALIFICATIONS WALES

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym